

Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth

Pwyllgor Ardal

Cynhelir y Pwyllgor Ardal ar ddydd Mawrth cyntaf y mis am 7.30yh yn Ystafell Gymuned, uwchben Ysgol Nebo. Cynhelir y cyfarfodydd nesaf ar 6 Ebrill, 4 Mai ac 1 Mehefin (Cyfarfod Blynnyddol). **Croeso i bawb!**

www.nantlle.com

Gwefan swyddogol Dyffryn Nantlle – prif adnodd y we ar gyfer Dyffryn Nantlle i gyd.

Fan Llyfrgell

Bydd fan Llyfrgell yn galw bob pedair wythnos ar ddydd Llun. Y dyddiad nesaf fydd 20 Ebrill:

Pont Lloc: 9.00yb-10.05yb

Sgwâr Nebo: 10.15yb-10.45yb

Nasareth: 10.55yb-11.20yb

Fan Swyddfa'r Post – AMSEROEDD NEWYDD

Ar ddydd Mercher y mae'r fan yn galw rŵan:

Nasareth: 10.45yb-12.15yh

Nebo: 12.15yh-12.45yh

Gwarchod y Gymdogaeth

Mae angen gwirfoddolwyr i gyd-drefnu'r cynllun: cysylltwch ag Yvonne ar 880107.

Tîm Plismona Gymdogaeth

PC Alex Higgins: ffôn 0845 607 1002, Est 70186
Cysylltwch os oes gennych broblem.

Ffeirio Planhigion

Nos Iau 3 Mehefin, 7.30yh yn yr Ysgol

Dewch ag unrhyw blanhigion i'w ffeirio am rai eraill!
Peidiwch â phoeni os nad oes gennych blanhigion i'w ffeirio, gallwch brynu planhigion a chyfrannu at y Pwyllgor.

Busnesau Lleol yn yr Ardal

L G Plumbing and Heating
01286 882748

Gallwch hysbysebu eich busnes yn y cylchlythyr am £12 y flwyddyn (a £2 tuag at gostau argraffu) drwy danysgrifo i Glwb Cant. Os oes gennych ddiddordeb, siaradwch ag aelod o'r Pwyllgor neu anfonwch ebost at Yvonne: capelbach@btinternet.com

Ebost

Os hoffech dderbyn rhifyn nesaf cylchlythyr Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth drwy ebost, yna anfonwch ebost at vho.jmo@tesco.net

Cystadleuaeth Tyfu Tatws

Agored i bob oedran, ond yn arbennig i blant. Bydd tatws ar gael wedi'r cyfarfod Pwyllgor Ardal 6 Ebrill, neu gofynnwch i unrhyw aelod o'r pwyllgor, yn yr ysgol neu yn Nhŷ Capel Nasareth.

Cyngor am Dyfu Tatws

- Defnyddiwch fwcet safonol fel un adeiladwr (neu rhywbeth o'r un faint).
- Gwnewch dwll yn y gwaelod.
- Llenwch at yr hanner gyda phridd neu gompost.
- Rhowch y dysen i mewn gyda'r blagur am i fyny.
- Gorchuddiwch y dysen gyda 8 cm/3 modfedd o bridd neu gompost.
- Rhowch y bwced y tu allan mewn man heulog.
- Cadwch y pridd un llaith.
- Ychwanegwch mwy o bridd neu gompost wrth iddi dyfu.
- Dyfriwch unwaith yr wythnos gyda llond pedair myg o ddŵr.
- Er mwyn cadw'r pridd yn wlyb, efallai y bydd angen dyfrio bob dydd os yn sych a heulog.

Cynhelir y pwysu a'r beirniadu ar ôl y Ras Hwyaidd, ar 22 Gorffennaf.

Lôn Eifion

Mae cynnig wedi'i wneud i greu mynediad at Lôn Eifion wrth Fferm y Berth ger y bont (cyfeirnod map 466508). Petai yn cael cefnogaeth byddai modd i feicwyr a cherddwyr ymuno â Lôn Eifion mewn man diogel heb orfod croesi'r briffordd A487.

Rydym yn eich annog i ddangos eich cefnogaeth i hyn drwy ysgrifennu at y cyfeiriad isod yn egluro sut y byddai hyn yn eich elwa chi.

Ysgrifennwch at:

Mark Balaam, Uwch Warden Cefn Gwlad, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.

Digwyddiadau'r Dyfodol

Dydd Sul 23 Mai: Taith Gerdded y Sulgwyn o Amgylch Y Gors

Cynhelir y daith gerdded draddodiadol hon am 2.00yh yn cychwyn o'r Ysgol, dewch â lluniaeth gyda chi.